YSGOL PENRHYNCOCH

Daeth yn amser cychwyn blwyddyn ysgol arall a braf yw cael croesawi disgyblion newydd i'n plith sef Bethan Jenkins, Glanstewi, Joanna Lewis, Bryn-eiddwen, Simon Morgan, Glanffrwd a Ruth Evans a Robert Evans Geryllan. Croesawn hefyd Mrs Carol Wray sydd yma'n gwneud cyfnod o arsylwi cyn cychwyn ar ei blwyddyn o Ymarfer Dysgu yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth.

Llongyfarchwn nifer o'r plant ar wneud gwaith da mewn arholiadau cerddoriaeth a balet a bu nifer hefyd yn llwyddiannus yn y gwahanol gystadlaethau yn Sioe Penrhyncoch yn ystod mis Awst. Da iawn bawb ohonoch.

Y mae'r bechgyn eisoes wedi cychwyn ar eu tymor pêl-droed a'r merched hwythau'n awyddus i ail gydio yn y ffyn hoci a chael cyfarfod â nifer o ffrindiau unwaith eto ar y maes ym Mhlascrug ar Ddydd Sadyrnau.